

Asesiadau amonia a nitrogen ar gyfer datblygiadau amaethyddol a threulio anaerobig y mae angen trwydded neu ganiatâd cynllunio arnynt

Anelir y canllawiau hyn at helpu i gyflawni dyfodol sefydlog a chynaliadwy ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru.

Cyflwyniad

Os ydych yn sefydlu datblygiad da byw neu'n gosod storfa tail/slyri newydd neu safle treulio anaerobig, ac yn gweithredu o fewn neu ger [safle sensitif](#), mae'n rhaid i chi ein darparu â gwybodaeth i ddangos na fydd eich cais yn [niweidio'r](#) cynefinoedd a rhywogaethau sy'n bresennol yno.

Os ydych yn gwneud cais am drwydded amgylcheddol neu ganiatâd cynllunio, bydd angen i chi gynnal asesiad o'r effaith bosibl gan amonia a nitrogen o ganlyniad i'ch datblygiad.

Oes angen cynnal asesiad amonia a nitrogen ar gyfer eich datblygiad?

Bydd maint eich datblygiad a'i agosatrwydd at safle sensitif yn penderfynu a oes angen i chi gynnal asesiad ai peidio.

[Cewch wybod lleoliadau'r holl safleoedd sensitif perthnasol. Bydd y mapiau hyn yn dangos i chi pa lefel gritigol \(CLE\) ar gyfer amonia a llwyth critigol \(CLO\) ar gyfer nitrogen y dylid eu defnyddio ar gyfer pob safle. \(Cyfarwyddiadau\)](#)

<https://nrw.maps.arcgis.com/apps/MapSeries/index.html?appid=c7770d2881394c899123bae210afe370>

Os nad oes safleoedd sensitif perthnasol o fewn y pellter sgrinio ar gyfer maint eich datblygiad, nid oes angen i chi gynnal asesiad pellach ar gyfer amonia a nitrogen. **(Nodwch hyn ar eich ffurflen gais)**

Pellteroedd sgrinio priodol

Mae angen i chi osod yr anheddau yng nghanol yr ardal sgrinio a defnyddio'r pellteroedd canlynol ar gyfer eich gwaith sgrinio cychwynnol

3 KM: Ar gyfer hyd at 32,000 o ddodwyr gyda [thechnoleg gwaredu tail](#), a chynhyrchu cywion (pob system).

5 KM: Ar gyfer hyd at 60,000 o leoedd anifeiliaid ar gyfer brwyliaid, dodwyr (heb eu cynnwys yn y rheol uchod), cywennod, adar hela (neu 500 m² mewn arwynebedd llawr), a storfeydd slyri a thail hyd at 4,000 m²

10 KM: Mwy na 60,000 o leoedd anifeiliaid ar gyfer yr holl ddofednod eraill (neu 500 m² mewn arwynebedd llawr)

10 KM: Gwartheg a moch ar gyfer arwynebedd llawr sy'n fwy na 500 m² ac ar gyfer storffeydd slyri a thail sy'n fwy na 4,000 m² a threulwyr anaerobig.

Os yw eich datblygiad:

- yn agosach na 250 metr i safle sensitif perthnasol, bydd angen i chi gynnal asesiad modelu manwl. [Ewch ymlaen i'r asesiad manwl](#)
- rhwng 250 metr a'r pellter sgrinio priodol ar gyfer nifer y lleoedd i anifeiliaid, bydd angen i chi gynnal asesiad – ewch i **Asesu difrod posibl allyriadau eich datblygiad** isod

Cynnal eich asesiad

Cyn dechrau, bydd angen i chi wybod:

- Nifer y lleoedd ar gyfer anifeiliaid yn eich datblygiad
- Y ffactor allyrru priodol ar gyfer yr anifail a'r math o annedd rydych yn cynnig ei ddefnyddio
- Lleoliad safleoedd sensitif o fewn y pellter sgrinio mewn perthynas â'ch datblygiad
- Y crynodiadau amonia cefndirol a'r gwerthoedd dyddodi nitrogen
- [A oes ffynonellau eraill o amonia a nitrogen nad ydynt wedi'u cynnwys yn barod yn y gwerthoedd cefndirol](#)

Cewch wybod beth yw'r ffactorau allyrru priodol.

[\[https://naei.beis.gov.uk/data/ef-all?q=131018\]](https://naei.beis.gov.uk/data/ef-all?q=131018)

Os ydych yn ansicr ynglŷn â pha safleoedd y dylid eu cynnwys yn eich asesiad, cysylltwch â ni.

Lefelau critigol amonia a llwythau critigol nitrogen

Bydd yr holl safleoedd sensitif sy'n berthnasol ar gyfer yr asesiad hwn yn cynnwys rhywogaethau neu gynefinoedd sy'n sensitif i amonia a nitrogen. Bydd gan bob un lefel gritigol ar gyfer amonia (NH₃-CLE) a llwyth critigol ar gyfer nitrogen (N-CLO) wedi'u rhoi iddo. Bydd angen i chi wybod beth yw'r rhain ar gyfer y safleoedd o fewn pellter sgrinio eich datblygiad.

Byddwch yn ymwybodol fod y lefel gritigol a'r llwyth critigol yn benodol i'r cynefin a'r math o rywogaethau planhigion sy'n bresennol.

Ni fyddant yr un fath ym mhob safle sensitif.

Ceir hyd i wybodaeth am y lefel gritigol ar gyfer amonia a'r llwyth critigol ar gyfer nitrogen [ar wefan y Gwasanaeth Gwybodaeth Llygredd Aer \(APIS\)](#)

[<http://www.apis.ac.uk/>]

Gwerthoedd cefndirol amonia a nitrogen yn y safleoedd sensitif

Bydd angen i chi wybod faint o amonia a nitrogen sydd yn bresennol yn barod mewn safle sensitif. Mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel y gwerthoedd cefndirol.

Gallwch ddarganfod beth yw'r gwerthoedd cefndirol drwy ddefnyddio nifer o ffynonellau fel:

- [Y Gwasanaeth Gwybodaeth Llygredd Aer \(APIS\) http://www.apis.ac.uk/](http://www.apis.ac.uk/)
- [Y Rhestr Allyriadau Atmosfferig Genedlaethol \(NAEI\) http://naei.beis.gov.uk/](http://naei.beis.gov.uk/)

Mewn rhai ardaloedd o Gymru, mae'r swm o amonia a nitrogen eisoes wedi cyrraedd y lefelau sy'n niweidiol i rai o'r rhywogaethau yn y safleoedd sensitif neu wedi mynd y tu hwnt iddynt.

Mae'n rhaid i chi ddarparu gwaith modelu manwl ar ein cyfer ar gyfer eich cynnig os yw'r lefel gefndirol o amonia wedi cyrraedd lefel gritigol yn barod, cyn y ceir allyriadau ychwanegol o ganlyniad i'ch gweithgaredd (gweler tudalen 4)

Pan mae angen trwydded amgylcheddol arnoch

Bydd angen i chi gael trwydded amgylcheddol os oes gennych fwy na:

- 40,000 o leoedd ar gyfer dofednod (gan gynnwys ieir, twrcïod, ieir gini, hwyaid, gwyddau, soffleir, colomennod, ffesantod a phetris sy'n cael eu magu neu'u cadw'n gaeth ar gyfer eu bridio, ar gyfer cynhyrchu cig neu wyau i'w bwyta, neu ar gyfer ailstocio cyflenwadau o adar hela)
- 2,000 o leoedd ar gyfer moch cynhyrchu (sy'n fwy na 30 kg), neu
- 750 o leoedd ar gyfer hychod

Fel rhan o'r cais trwydded amgylcheddol, bydd angen i chi cynnal asesiad ar gyfer effaith bosibl amonia a nitrogen o'ch datblygiad.

Os ydych wedi cynnal asesiad o'r effaith amgylcheddol ar gyfer eich cais cynllunio, byddwn yn defnyddio'r un wybodaeth wrth benderfynu ynglŷn â'r drwydded.

Rydym yn argymhell eich bod yn gwneud cais cynllunio a thrwydded ar yr un pryd.

Asesu difrod posibl allyriadau eich datblygiad

Unwaith y byddwch wedi gwirio'r lefel gritigol ar gyfer amonia a'r llwyth critigol ar gyfer nitrogen yn y safleoedd sensitif ac ni ragorir ar y gwerthoedd cefndirol, gallwch gynnal asesiad o effaith yr allyriadau o'ch datblygiad.

Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio offeryn sgrinio ar-lein am ddim o'r enw SCAIL Agriculture neu gan arbenigwr sy'n defnyddio model cymeradwy.

Mae SCAIL Agriculture yn amcangyfrif swm yr amonia a nitrogen sy'n cael ei allyrru o ddatblygiad da byw. Gellir wedyn defnyddio'r canlyniadau i asesu a ragorir ar derfynau effaith y safle sensitif ai peidio. Mae'n ddefnyddiol fel modd sgrinio ffynonellau cychwynnol ar gyfer ceisiadau trwydded a cheisiadau cynllunio.

[Defnyddiwch SCAIL Agriculture i gael asesiad cychwynnol](http://www.scail.ceh.ac.uk/cgi-bin/agriculture/input.pl)

[<http://www.scail.ceh.ac.uk/cgi-bin/agriculture/input.pl>]

Cewch wybod ffactorau allyriadau ar gyfer eich datblygiad yma

[<https://naei.beis.gov.uk/data/ef-all?q=131018>]

Bydd yr offeryn SCAIL yn rhoi gwybod i chi beth yw cyfraniad proses eich datblygiad yn y safleoedd sensitif o fewn y pellter sgrinio.

Cyfraniad y broses yw'r swm o amonia a nitrogen sy'n dod o'ch datblygiad.

Ar gyfer amonia, mae'n cael ei fynegi mewn microgramau fesul metr ciwbig ($\mu\text{g}/\text{m}^3$).

Ar gyfer nitrogen, mae'n cael ei fynegi mewn cilogramau o nitrogen fesul hectar fesul blwyddyn ($\text{kgN}/\text{ha}/\text{yr}$).

Bydd angen i chi ddweud wrthym beth yw cyfraniad proses eich datblygiad a'i ddarparu fel canran o'r lefel gritigol ar gyfer amonia a'r llwyth critigol ar gyfer nitrogen.

Yr hyn sydd angen ei wneud unwaith bydd gennych ganlyniadau'r asesiad

A yw'r gwerthoedd cefndirol ar y lefel gritigol neu'n uwch yn y safle sensitif?

Oes ffynonellau eraill o amonia yn bresennol a allai gael effaith ar y safle sensitif?

A yw eich cyfraniad proses yn fwy nag 1%?

Os gallwch ateb NA (a dangos tystiolaeth) i bob un o'r cwestiynau hyn, nid oes angen gwerthuso pellach.

Os nad ydych yn gallu ateb NA i bob un o'r cwestiynau hyn, bydd angen cynnal gwaith modelu manwl.

Sut mae cynnal gwaith modelu manwl

[Modelwch yr allyriadau o'ch datblygiad a ffynonellau eraill o amonia ar y cyd](#)

[Darllenwch fwy ynglŷn â chynnal asesiad modelu manwl.](#)

[\[https://cdn.naturalresources.wales/media/690820/gn36-checked-2.pdf\]](https://cdn.naturalresources.wales/media/690820/gn36-checked-2.pdf)

Beth sy'n digwydd gyda chanlyniadau'r gwaith modelu manwl?

Os gallwch ddangos na fydd eich datblygiad yn niweidio'r rhywogaethau a chynefinoedd sensitif rydym yn ceisio'u diogelu, bydd y gwaith o benderfynu am eich caniatâd yn gallu parhau. Os na allwch, byddwn yn gwrthwynebu ceisiadau cynllunio ac yn gwrthod y drwydded amgylcheddol.

Byddwn bob tro yn trafod a ellir rhoi cynlluniau lliniaru ychwanegol neu amgen ar waith er mwyn galluogi datrysiad posibl.

Rhestr termau

Safle sensitif: Mae safle sensitif yn lle sy'n cynnwys rhywogaeth nad yw'n gallu goddef lefelau uchel o nitrogen. Lefelau critigol yw'r diffiniad ar gyfer y lefel sy'n cael ei hystyried yn 'uchel'. Mae gan rai rhywogaethau lefel gritigol o 1 µg/m³ tra bo gan eraill lefelau critigol o 3 µg/m³. Mae'r holl safleoedd sensitif rydym yn ymwybodol ohonynt ar yr haen system gwybodaeth ddaearyddol (GIS) y mae dolen iddi yn y ddogfen hon.

SYLWER: Nid yw safleoedd sensitif yn gyfyngedig i'r rheini sydd wedi'u dynodi fel safleoedd a warchodir mewn rhyw ffordd.

Rydym wedi gwneud y newid hwn er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio ag adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) a'n bod yn diogelu'r rhywogaethau hynny sydd yn bwysicaf.

Niwed: Os oes rhywogaethau sensitif yn bresennol, y lefel gritigol (1 ug/m³ neu 3 ug/m³) yw'r pwynt lle rydym yn ystyried y bydd niwed pendant yn digwydd. Rydym yn ystyried bod y lefelau hyn yn dorbwynt ar gyfer datblygiadau sy'n ychwanegu at lefelau nitrogen. Fodd bynnag, mae ymchwil yn dangos bod niwed yn gallu digwydd yn is na'r lefelau hyn. Os yw eich fferm yn ychwanegu at lefelau nitrogen mewn safleoedd sensitif, mae'n rhaid lleihau'r swm a ychwanegir trwy ddefnyddio'r technegau gorau sydd ar gael wrth ddylunio anheddau a lleihau allyriadau, ac wrth storio a defnyddio tail wedi hyn.

Y technegau gorau sydd ar gael: Mae'r rhain yn rhestr o dechnegau a fanylir o fewn y Cod Ymarfer Amaethyddol Da a dogfennau sy'n cyfeirio at y technegau gorau sydd ar gael (BREF), a dylid ystyried pob techneg gymwys er mwyn lleihau effaith y fferm ar rywogaethau sensitif a galluogi ffermydd eraill i weithredu yn yr ardaloedd.

(Y Cod Ymarfer Amaethyddol Da: https://llyw.cymru/cod-ymarfer-amaethyddol-da?_ga=2.250356486.1089147490.1587976033-374279290.1584611051)

(BREF: <https://eippcb.jrc.ec.europa.eu/reference/intensive-rearing-poultry-or-pigs-0>)

Cyfarwyddyd map: Dewiswch eich ardal ar y map rhyngweithiol a chwyddo mewn i lefel briodol. Ar y rhestr haenau, dewiswch 'dynodiadau a mynediad' ac yna dewis 'Ansawdd Aer Cynefin' a dewiswch yr holl haenau o fewn yr adran honno. Bydd hyn yn dangos yr ardaloedd rydym yn poeni amdanynt a'r lefel gritigol lle bydd cynefinoedd a rhywogaethau yn dechrau cael eu heffeithio'n andwyol.

Pellteroedd sgrinio priodol: Mae'r pellteroedd hyn wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r gofynion ar gyfer asesiad o'r effaith amgylcheddol o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref. Rydym wedi addasu'r

pellter er mwyn sicrhau mai'r datblygiad priodol yn unig sy'n cael ei sgrinio. Mae'r broses sgrinio yn fwriadol geidwadol er mwyn sicrhau ble y ceir risg o niwed y gweithredir gwaith modelu manwl.

Technoleg gwaredu tail: Mae tail fel arfer yn cael ei waredu gan gludfeltiau. Gellir ystyried systemau eraill ond mae'n rhaid gwaredu â thail o leiaf dwywaith yr wythnos os nad yw'n cael ei sychu yn yr aer, ond gellir lleihau'r arfer i unwaith yr wythnos os yw'n cael ei sychu yn yr aer.

Safleoedd ble rhagorir ar lefelau cefndirol: Ble rydym yn ymwybodol o safle sensitif sydd â lefelau cefndirol uwch, nid yw unrhyw ychwanegiad pellach yn dderbyniol. Ar gyfer ffermydd sy'n dymuno gweithredu yn yr ardaloedd hynny, mae'n rhaid defnyddio'r gyfres lawn o dechnegau sydd ar gael i leihau'r allyriad fel safon ofynnol; dim ond mathau o adeiladau lle gellir sianeli'r allyriad yn llawn er mwyn ei drin y gellir eu hystyried.

Cysylltwch â Cyfoeth Naturiol Cymru am gymorth.

Beth sydd angen i chi ei gynnwys pan ydych yn chwilio am ffynonellau eraill o nitrogen: Bydd angen i chi gynnwys unrhyw gynllun neu brosiect yn y camau canlynol

- a. Ceisiadau sydd wedi'u cyflwyno ond heb eu penderfynu
- b. Prosiectau sy'n destun adolygiad cyfnodol, e.e. trwyddedau blynyddol
- c. Gwrthodiadau sy'n destun apêl ac sydd heb eu penderfynu eto
- d. Prosiectau sydd wedi'u hawdurdodi ond sydd heb eu dechrau eto
- e. Prosiectau sydd wedi'u dechrau ond sydd heb eu cwblhau eto
- f. Prosiectau hysbys nad oes angen awdurdodiad allanol arnynt
- g. Cynigion a fabwysiadwyd o fewn cynlluniau
- h. Cynigion o fewn cynlluniau drafft terfynol sydd wedi'u cyhoeddi'n ffurfiol neu eu cyflwyno ar gyfer ymgynghoriad terfynol neu archwiliad neu er mwyn eu mabwysiadu.

Os nad yw cynllun neu brosiect yn gallu parhau am resymau cyfreithiol neu dechnegol neu resymau cadarn eraill, gellir ei ddiystyru.

Dylid cynnwys yr holl allyriadau, gan gynnwys y rheini fyddai'n cael eu tynnu o'r sgrinio o dan yr hen ganllawiau. Nid yw'r de minimis o 1% o gyfraniad y broses yn berthnasol ar gyfer asesiadau cyfunol.

Cyfeirnod: Llawlyfr Asesu'r Rheoliadau Cynefinoedd